**Ymateb Llais i Adolygiad Perfformiad a Chynhyrchiant GIG Cymru a Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru**
*29 Ebrill 2025*

Mae Llais yn croesawu cyhoeddi adroddiad y Grŵp Cynghori Gweinidogol (MAG) ar Berfformiad a Chynhyrchiant GIG Cymru, a chynllun gweithredu manwl Llywodraeth Cymru mewn ymateb.

Rydym yn gweld hyn fel moment pwysig ar gyfer dyfodol iechyd a gofal yng Nghymru.

Mae'r dogfennau hyn yn nodi her glir i'r GIG yng Nghymru i symud o uchelgais i gyflawni, rhywbeth y mae pobl ledled Cymru wedi bod yn gofyn amdano.

Drwy gydol ein gwaith, o wrando ar brofiadau byw i rannu'r hyn sy'n bwysig i gymunedau, rydym wedi codi llawer o'r materion sydd bellach yn cael eu cydnabod yn yr adroddiad hwn yn gyson. Rydym yn cael ein calonogi o weld sawl maes yn cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru lle mae Llais, ar ran pobl ledled Cymru, wedi galw am fwy o frys, tryloywder, a ffocws cryfach ar brofiad byw.

Rydym yn croesawu’n arbennig y pwyslais ar wella tryloywder, dysgu o’r hyn sy’n gweithio, a chreu diwylliant o arweinyddiaeth a chyfraniad atebolrwydd, pob un yn feysydd rydym wedi’u hyrwyddo ers tro byd drwy ein gwaith ymgysylltu, mewnwelediad ac eiriolaeth cwynion.

## Rhoi pobl yng nghanol perfformiad

Mae'r adroddiad yn glir: er mwyn gwella perfformiad a chynhyrchiant, rhaid i wasanaethau symud o strategaeth i gyflawni gyda phrofiadau pobl wrth wraidd y broses. Mae Llais wedi tynnu sylw’n gyson at sut mae’n rhaid i dargedau perfformiad gysylltu â realiti aros hir, cyfathrebu gwael, a theithiau tameidiog drwy ofal.

Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella perfformiad mewn ffyrdd y mae pobl yn eu teimlo ac yn eu gwerthfawrogi. Byddwn yn parhau i chwarae ein rhan wrth gyflwyno barn a phrofiadau pobl ar ofal iechyd fel bod cynnydd ar lefel y system yn arwain at brofiadau gwell a thecach ar lawr gwlad.

Rydym yn cael ein calonogi o weld bod nifer o'r argymhellion yn adlewyrchu meysydd lle mae Llais wedi galw am newid yn flaenorol, a lle rydym wedi cynnig her a chefnogaeth adeiladol. Mae hynny'n cynnwys:

- Mwy o ffocws ar ganlyniadau sy'n bwysig i bobl, nid dim ond metrigau perfformiad.
- Gwneud data perfformiad lleol yn fwy tryloyw a defnyddiol i gymunedau.
- Sicrhau bod y dull o ymdrin â 'ffitrwydd' triniaeth yn gefnogol, yn deg, ac nad yw'n eithrio pobl heb y cymorth a'r gefnogaeth gywir.
- Gwella sut mae apwyntiadau a fethir yn cael eu rheoli — gyda thrugaredd a dealltwriaeth.
- Creu diwylliant lle mae arweinyddiaeth yn cael ei rhannu, mae gwelliant yn gyfunol, ac mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i leisio barn a gwneud pethau'n wahanol.

Rydym hefyd yn falch o weld pwyslais clir ar weithredu nawr. Mae maint yr her yn wirioneddol — ond felly hefyd y cyfle i ailadeiladu ymddiriedaeth a hyder.

Dywedodd **yr Athro Medwin Hughes, Cadeirydd Llais**: “Mae’r adolygiad hwn yn rhoi profiadau pobl yn ôl yn y lle cywir – wrth wraidd sut rydyn ni’n mesur llwyddiant mewn iechyd a gofal. Mae hefyd yn herio pob un ohonom, gan gynnwys Llais, i weithio'n wahanol. Byddwn yn parhau i ddod â lleisiau pobl i’r bwrdd, a hefyd yn helpu i greu’r amodau lle mae pobl wir yn gwrando, a lle mae newid yn dilyn.”

Dywedodd **Alyson Thomas, Prif Weithredwr Llais**: “Dyma’r prawf arweinyddiaeth. Nid yw'n ymwneud â chynlluniau newydd yn unig, mae'n ymwneud â sut mae cyrff y GIG yn cydweithio i sicrhau gwelliant yn deg ac yn gyflym, mewn ffyrdd y gall pobl eu gweld a'u teimlo. Rydym wedi bod yn galw am lawer o'r newidiadau a nodir yma, a byddwn yn parhau i chwarae ein rhan — fel ffrind beirniadol, hyrwyddwr dros bobl, a phont rhwng cymunedau a gwneuthurwyr penderfyniadau.”

Rydym hefyd eisiau ailadrodd ein gwerthfawrogiad i staff y GIG. Rydym yn gwybod y niwed y mae'r pwysau presennol yn ei chael ar forâl, lles, a'r gallu i ddarparu gofal. Nid yw hyn yn ymwneud â bai. Mae'n ymwneud ag adeiladu system sy'n cefnogi'r gweithlu a'r bobl maen nhw'n gofalu amdanyn nhw.

Bydd Llais yn parhau i wrando, herio a chefnogi'r system i ddarparu iechyd a gofal sy'n amserol, yn deg, ac yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i bobl.

Am ragor o wybodaeth neu ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltwch â:
**communicationengagement@llaiscymru.org**
**02920 235558**